Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Rhufeiniaid

## Uned 3



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ynglŷn â’r canllaw hwn | 3 |
| Rhagymadrodd | 4 |
| Caerllion – tref Rufeinig unigryw yng Nghymru | 6 |
| Llenwi eich bol | 8 |
| Gorffwyso ac ymlacio | 14 |
| Bywyd Milwr | 18 |
| Milwyr Segontium | 21 |
| Un bawd i fyny, un bawd i lawr? (Amffitheatrau Cymru) | 26 |
| Filas Rhufeinig y bobl gyfoethog | 29 |
| Sut oedd y Brythoniaid yn ymateb i’r ffordd newydd Rufeinig o fyw? | 32 |
| Bywyd y werin bobl | 34 |
| Beth ddysgodd y Rhufeiniaid gan y Celtiaid? | 36 |
| Cerbydau Rhyfel a Chleddyfau | 38 |
| Dewiswch eich Duwiau | 42 |
| Merched yn arwain | 46 |
| Rhufeiniaid a Cheltiaid yn cymysgu | 48 |
| Darganfod mwy! | 49 |

# Ynglŷn â'r canllaw hwn

Uned 3: Pa effaith gafodd y Rhufeiniaid ar bobl Prydain?

## Thema'r uned

Pa wahaniaeth wnaeth y Rhufeiniaid yng Nghymru?

## Amcanion Dysgu

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar Oresgyniad y Rhufeiniaid yng Nghymru. Mae'n edrych yn fanylach ar amrywiaeth ddiwylliannol, bywyd yn y cartref a bywyd milwrol, yn ogystal ag offer metel/bwyd/crefydd/helyntion ac ati.

Bydd y dysgwyr yn cael eu hannog i ystyried amrywiaeth o feysydd lle byddai gwahaniaethau diwylliannol wedi bod yn amlwg, yn ogystal â'u trwytho mewn gwybodaeth am fywyd y Celtiaid a'r Rhufeiniaid wrth iddynt gyd-fyw o ddydd i ddydd.

## Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru

**Dibenion y Cwricwlwm**
Cymorth i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddehongli a disgrifio'r gorffennol a'r presennol.

**Maes dysgu a phrofiad**
Y Dyniaethau

**Datganiad o'r hyn sy'n bwysig**
Bydd yr uned hon yn annog dealltwriaeth feirniadol o sut y mae cymdeithasau wedi'u trefnu, eu strwythuro a'u harwain, ym mro'r dysgwyr eu hunain ac yng Nghymru, yn ogystal ag yn fyd-eang.

**Yn fanwl**
Caiff cymdeithasau eu nodweddu gan amrywiaeth o normau a gwerthoedd diwylliannol, ieithyddol, economaidd, cyfreithiol a gwleidyddol. Maen nhw hefyd yn ddeinamig, gan sbarduno ac ymateb i newidiadau, ar raddfa leol, genedlaethol a byd-eang. Gall dysgwyr archwilio'r cysylltiadau a'r rhyng-ddibyniaethau rhwng y cymdeithasau hyn, yn y gorffennol a'r presennol, yng nghyd-destun globaleiddio byd-eang.

Bydd dulliau gweithredu disgyblaethol addas, gan gynnwys dyniaethau digidol, yn gymorth i ddysgwyr gasglu, cyfiawnhau, cyflwyno, dadansoddi a gwerthuso ystod o dystiolaeth. Bydd dehongli a chyfuno gwybodaeth o gymorth i ddysgwyr adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd eisoes a llywio ymhellach eu dealltwriaeth o'r byd.

# Rhagymadrodd

Ar ôl goresgyn rhannau sylweddol o Brydain, aeth y Rhufeiniaid ati i'w thrawsnewid.

Erbyn tua OC 80 roedden nhw wedi rhannu'r dalaith newydd yr oedden nhw'n ei galw'n 'Britannia' yn ddwy ran. Roedd y naill ar gyfer y cyhoedd neu'r boblogaeth 'sifil' a'r llall ar gyfer y milwyr, i'w hamddiffyn rhag y Celtiaid cythryblus.



Darlun o'r milwyr Rhufeinig yn eu barics yng Nghaerllion
© J Banbury

Safle Rhufeinig Caerllion © Visit Wales



Adeiladodd y Rhufeiniaid dair caer fawr yng Nghymru er mwyn i'r milwyr amddiffyn y ffin – Caerefrog, Caer ac Isca (neu Gaerllion fel yr ydyn ni'n ei hadnabod heddiw).

# Trefi newydd, ffordd newydd o fyw

Trawsnewidiwyd tirwedd Prydain gan y ffyrdd, trefi, ceyrydd ac amffitheatrau Rhufeinig newydd ond mae'n rhaid cofio bod y Rhufeiniaid wedi newid ffordd pobl o fyw hefyd.

Bu Cymru yn rhan o'r Ymerodraeth Rufeinig am dros 300 mlynedd. Daeth y llwythau Brythonig yn gyfarwydd â chelfyddyd, diwylliant, ffordd o fyw a llawer o agweddau eraill ar y bywyd Rhufeinig ac fe ddylanwadodd y Brythoniaid ar y Rhufeiniaid hefyd. Felly sut yr effeithiodd hyn oll ar Brydain, a Chymru yn arbennig?

Erbyn yr 2il ganrif roedd tua deugain o drefi wedi cael eu sefydlu gan y Rhufeiniaid, gyda Llundain a Chaerefrog yn Lloegr ac Isca (neu Gaerllion) a Chaer-went yng Nghymru yn eu mysg.


Roedd Isca yn rhan o rwydwaith o gaerau a chaeranau (caerau bach) a oedd yn ymestyn o Gaerfyrddin yn y gorllewin i Gaernarfon ac Ynys Môn yn y gogledd. Mae'n debyg bod y llwythau brodorol yn dechrau gweld manteision y dylanwad Rhufeinig ac yn dechrau dod yn llai awyddus i ymladd yn eu herbyn.

## Ymchwiliwch!

Faint o gaerau a chaeranau (caerau bach) sydd yng Nghymru? Gwnewch fap syml i ddangos ble maen nhw. Cofiwch am y cliwiau sydd mewn enwau lleoedd a gawsoch yn Uned 2. Gall gwefan Cadw eich helpu chi hefyd.



# Caerllion – tref Rufeinig unigryw yng Nghymru




Cynllun Tir Caerllion

Roedd y trefi Rhufeinig yn grand iawn gyda phob math o bethau modern nad oedd y trigolion lleol wedi'u gweld erioed o'r blaen.

Rydyn ni'n gwybod bod y Rhufeiniaid eisiau i bopeth fod yn dwt ac yn daclus. Felly roedden nhw'n gwneud y siŵr bod eu trefi wedi'u cynllunio'n dda. Yn aml iawn roedd y trefi'n cael eu cynllunio mewn sgwariau, yn eithaf tebyg i fwrdd gwyddbwyll. Roedd hynny wedyn yn ffurfio blociau o'r enw 'insulae'.

Yn y canol roedd y 'fforwm' a oedd yn debyg iawn i farchnadoedd a welir mewn trefi heddiw. Byddai pobl yn gwerthu pethau yno. Roedd siopau a swyddfeydd ar dair o'r ochrau a swyddfeydd y llywodraeth, y 'Basilica', ar y bedwaredd ochr.

Petaech wedi mynd am dro i dref Rufeinig, gallech fod wedi siopa ar y stryd fawr, addoli mewn teml a hyd yn oed gael byrbryd o siop tecawê neu fwyd stryd blasus!



## Gweithgaredd gwych

Dyluniwch grid eich tref Rufeinig ddelfrydol chi. Gallwch gynnwys unrhyw beth yr ydych yn ei ddymuno – siopau, swyddfeydd, baddonau ac ati – cyhyd â'u bod yn arfer bodoli mewn tref Rufeinig!

Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL
— EXPRESSIVE ARTS —

### Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol. Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

GWYDDONIAETH A THECHNOLEG
— SCIENCE & TECHNOLOGY —

### Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig


Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol o ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.

# Llenwi eich bol



Yn Uned 2 fe wnaethon ni ddysgu bod y Rhufeiniaid wedi dod â llawer o fwydydd newydd a blasus gyda nhw i Brydain. Ond tybed oeddech chi'n gwybod eu bod nhw hefyd yn caru caws? Fe wnaethon nhw ddarganfod sut i fygu caws hyd yn oed, a gwneud caws caled. Roedd hi'n bosibl prynu caws gan werthwyr stryd. Os nad oeddech chi'n ei hoffi, wel, caws caled!





Roedden nhw wrth eu boddau â physgod a physgod cregyn hefyd. Roedd wystrys, cocos a chregyn gleision yn cael eu cludo i mewn o'r arfordir mewn casgenni mawr. Roedd halen yn hynod bwysig i gadw bwyd yn ffres ac roedden nhw'n ei dynnu o lannau ynys Prydain. Roedd y Celtiaid yn bwyta pysgod cregyn ond nid i'r fath raddau ag yr oedd y Rhufeiniaid yn eu bwyta.



Daeth gerddi marchnad a pherllannau oedd yn tyfu ffrwythau blasus fel gellyg, afalau ac eirin yn bethau cyffredin ond doedd y deiet newydd ddim yn gyfarwydd i Frythoniaid tlawd cefn gwlad. Doedden nhw ddim yn gallu cael gafael ar y bwydydd hyn ond gallai'r cymunedau milwrol fwyta bwydydd Rhufeinig yno.




Fel y Brythoniaid, roedd y Rhufeiniaid yn dal i dyfu grawn er mwyn iddyn nhw allu gwneud bara. Un o'r ardaloedd gorau yng Nghymru ar gyfer tyfu cnydau grawn yw Bro Morgannwg. Oeddech chi'n gwybod bod grawn llosg o gyfnod y Rhufeiniaid wedi cael ei ddarganfod ger maes awyr Caerdydd?



Stamp bara plwm 'Cwmni Quintinius Aqulia' – er mwyn dangos pwy oedd perchnogion y dorth © Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Roedd milwyr Caerllion yn pobi bara mewn ffyrnau cymunedol y tu allan i'r barics hefyd. Rydyn ni'n gwybod hyn oherwydd darganfuwyd y stamp bara hwn yno yn y 1920au. Roedd bara mor bwysig i'r Rhufeiniaid, roedd yn cael ei roi am ddim i'r tlodion.



Daeth cig yn fwy poblogaidd yng nghyfnod y Rhufeiniaid hefyd. Tyfodd y gwartheg oedd yn cael eu cadw ac roedd moch a defaid yn cael eu ffermio hefyd.

Roedd mêl yn cael ei ddefnyddio'n helaeth, felly daeth cadw gwenyn yn boblogaidd. Roedd gan y rhan fwyaf o ffermydd wenynwr yn gofalu am y gwenyn.

Cyflwynodd y Rhufeiniaid olew olewydd a gwin i'r Brythoniaid hefyd.

Mae'r llestri hyn yn adrodd hanes masnachu gwin ac olew olewydd. Roedd gwin ac olew yn cael eu cario mewn llestri crochenwaith mawr o'r enw amfforâu. Gall arbenigwyr ddweud o ble roedden nhw'n dod a beth oedd eu cynnwys dim ond trwy edrych arnyn nhw.

Roedd ffrwythau sych, surop sudd grawnwin a saws pysgod (a ddefnyddid yn helaeth gan y Rhufeiniaid wrth goginio) yn cael eu cludo yn y potiau enfawr hyn hefyd.

Daeth gwinoedd o'r Eidal, Gwlad Groeg a Ffrainc ac olew olewydd a saws pysgod o Sbaen i Gaerllion. Mae olion yn dangos eu bod wedi mynd hyd yn oed ymhellach i'r gorllewin hefyd, i Gasllwchwr a chaerau eraill ac i'r aneddiadau o'u cwmpas. Iechyd da!

Darganfuwyd amrywiaeth o lestri coginio a bwyta yng Nghaerllion
© Amgueddfa Genedlaethol Cymru



# Tecawê Rhufeinig

Beth fyddech chi'n ei ddewis o'r fwydlen tecawê Rufeinig?

## *Bwydlen*


Plwmwns y Pigwn gyda ffigys a mêl

Bynsen stêc Segontium wedi'i hysgeintio ag olew olewydd

Brecwast Caer Aberhonddu (ientaculum) – ham, olewydd a chaws Caerllion

Ceirios Caer-went gyda diferyn o win coch

Wystrys Menai gyda saws pysgod tanllyd



## Ymchwiliwch!

Pa fwydydd eraill ddaeth i Gymru gyda'r Rhufeiniaid? Sut wnaethon nhw ddod â'r bwydydd newydd i mewn i'r wlad?

# Beth am fwyd y Celtiaid?

Roedd y Celtiaid yn mwynhau ambell bryd o fwyd blasus hefyd. Roedden nhw'n casglu pethau fel aeron, danadl poethion, madarch a mwyar duon ac yn hela anifeiliaid gwyllt fel ceirw, llwynogod, afancod, baeddod ac eirth! Roedden nhw'n bwyta wyau ieir ac adar gwyllt ac yn pysgota brithylliaid, eogiaid a mecryll hefyd. Felly, petaech yn ymweld â chartref Celtaidd, efallai y byddech chi'n cael pryd o fwyd go dda yno.

## Gweithgaredd gwych

Paratowch fwydlen Rufeinig mewn gwers goginio. Dewch o hyd i gynhwysion blasus a pharatowch saig addas ar gyfer gwledd Rufeinig! Gwnewch fideo cam-wrth-gam o sut y gwnaethoch chi baratoi eich pryd. Gallech wisgo dillad fel y Rhufeiniaid hyd yn oed!

Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL
EXPRESSIVE ARTS

### Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig


Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

# Gorffwyso ac ymlacio

Ar ôl mwynhau pryd da o fwyd, fe allech chi wedyn fynd i ymolchi a rhannu clecs yn y baddonau cynnes. Wrth gwrs, doedd y Brythoniaid lleol (a oedd braidd yn flêr) erioed wedi gweld bath poeth o'r blaen. Mae'n rhaid bod Isca (Caerllion) wedi bod yn agoriad llygad iddyn nhw, gyda'i system dŵr poeth, ysbyty a chanolfan hamdden gyntaf Cymru!

| **Adeiladau Pwysig** | **Defnydd** |
| --- | --- |
| y **fforwm** | man cyfarfod a chynnal marchnad |
| y **baddonau** | man cyhoeddus ar gyfer ymolchi |
| y **tai bach** | toiledau cyhoeddus |







Cynllun llawr baddonau Rhufeinig Caerllion © Croeso Cymru

# Mynd am dro drwy Gaerllion


Beth am i ni fynd am dro drwy Gaerllion Rufeinig er mwyn dysgu rhagor am fywyd y bobl yno?



Bu milwyr Rhufeinig yng Nghaerllion am bron i 200 mlynedd rhwng OC 75 a 287. Roedd tua 5,000 o filwyr yn byw yn y barics yno.

Rydyn ni'n gwybod eu bod nhw wedi bod yn nofio, ymlacio a socian eu cyrff blinedig ar ôl brwydrau ym maddonau Caerllion. Wrth ymweld â'r baddonau heddiw, gallwn gael cipolwg ar filwr Rhufeinig yn plymio i'r dyfnderoedd, diolch i effeithiau arbennig, wrth gwrs!

Darlun artist o du mewn i'r bathondai Rhufeinig yng Nghaerllion gan B. Delf



Darganfuwyd disiau chwarae yn y baddonau hefyd, sy'n dangos bod pobl yn hoffi chwarae gemau yno yn ogystal ag ymolchi. Mae llawer o wrthrychau diddorol wedi'u darganfod yn y baddonau – pethau a gollodd y Rhufeiniaid yno 2,000 o flynyddoedd yn ôl.



Darnau o gemau chwarae a ganfuwyd ym maddonau Caerllion

## Ymchwiliwch!

Pa wrthrychau Rhufeinig sydd wedi cael eu darganfod yng Nghaerllion? Beth maen nhw'n ei ddweud wrthym ni am ffordd o fyw y bobl oedd yn byw yno?

Baddondai Rhufeinig Caerllion heddiw © Cadw



Y DYNIAETHAU
HUMANITIES

**Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig**


Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.

# Bywyd Milwr

Gallwch hefyd weld yr ystafelloedd cyfyng lle'r oedd y milwyr yn cysgu ac yn storio eu harfau yng Nghaerllion. Mae Caerllion yn safle arbennig iawn gan mai dyma'r unig farics llengol Rhufeinig sydd i'w gweld o hyd yn Ewrop. Mae manylion ymweld â'r safle ar wefan Cadw.

Gallwn ddysgu llawer am fywyd milwr Rhufeinig yng Nghaerllion yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru hefyd.

Yno gallwch ymweld ag ystafell farics (wedi'i hail-greu) lle'r oedd y milwyr yn cadw eu harfwisgoedd a'u harfau ac fe allwch chi wisgo arfwisg esgus yno hyd yn oed!




# Bydd yn heini i oroesi!

Roedd yn rhaid i'r milwyr Rhufeinig fod yn heini iawn gan fod yr arfwisg yn andros o drwm! Roedd eu harfau hefyd yn drwm ac yn beryglus iawn. Gallwch weld 'pigogyrau'- arfau a ddefnyddiai'r Rhufeiniaid i bigo traed gelynion a'u ceffylau- yn yr Amgueddfa. Aaaww!

Roedd arfau ac arfwisgoedd rhagorol yn bwysig iawn i'r fyddin Rufeinig. Heb y rhain fydden nhw ddim wedi llwyddo cystal mewn brwydrau ac wrth adeiladu'r ymerodraeth.

- Dim ond dinasyddion Rhufeinig allai ymrestru i fynd i'r fyddin.
- Roedd yn rhaid bod yn heini.
- Doedd milwyr ddim yn cael priodi.
- Roedd canwriad yn gyfrifol am wyth deg o'r dynion.





Mae gen i 'pilum', sef gwaywffon arbennig a ddefnyddiaf mewn brwydr! Rwy'n tynnu fy nghleddyf ac yn trywanu fy ngelynion! Mae gen i darian grom. Mae'r cylch metel yn y canol yn ddefnyddiol iawn i daro'r gelyn. Rwy'n dilyn gorchmynion a byth yn ateb yn ôl!



Roedden nhw'n gallu gorymdeithio ugain milltir y dydd yn cario offer trwm – ac yna adeiladu gwersyll ar gyfer y noson honno! Allech chi wneud yr un peth â nhw?

# Milwyr Segontium

Oeddech chi'n gwybod mai Segontium, a sefydlwyd yn OC 77, oedd y gaer Rufeinig fwyaf yng ngogledd Cymru?


Roedd y gaer hon ar gyrion Caernarfon yn gartref i fil o filwyr Rhufeinig. Penderfynodd y cadfridog Rhufeinig Agricola ei hadeiladu ar ôl i'r Rhufeiniaid ymladd brwydr greulon yn erbyn llwyth brodorol yr Ordoficiaid. Roedd Agricola yn credu y byddai Segontium yn ganolfan dda petaen nhw'n penderfynu ymosod ar ynys Geltaidd arall...



# Tacitus yn adrodd y stori

Dyma beth oedd gan ein hen gyfaill, Tacitus, yr hanesydd, i'w ddweud am y frwydr yn erbyn yr Ordoficiaid yn Sir Fôn. Mae'n awgrymu'n gryf bod rhai o'r bobl leol wedi helpu'r Rhufeiniaid i frwydro yn eu herbyn!

> Dewisodd Agricola griw o gynorthwywyr brodorol a oedd yn adnabod y dŵr bas ac yn gallu nofio. Yna gyrrodd Agricola nhw i ymosod ar y gelyn mor sydyn nes bod yr ynyswyr syfrdan – a oedd yn amddiffyn rhag fflyd o longau ar y môr – wedi penderfynu'n ddiymdroi na allai dim atal dynion oedd yn ymladd yn y modd hwn...



Yr Ordoficiaid oedd y llwyth olaf i gael eu trechu a Sir Fôn eu cadarnle olaf a gipiwyd gan y Rhufeiniaid. Felly roedd hyn yn llwyddiant mawr i Agricola.

# Mwyngloddio ac aml-dasgio

Cofiwch fod Segontium yn fwy na dim ond caer. Yno roedd y Rhufeiniaid yn trefnu mwyngloddio metelau gwerthfawr ac yn casglu trethi. Oedden, roedden nhw'n hoffi casglu trethi, er mwyn cael mwy o gyfoeth wrth gwrs.



Llun o'r awyr o Segontium
© Croeso Cymru



Adfeilion Segontium heddiw

Os ewch chi am dro i Segontium heddiw, gallwch weld olion y barics yno o hyd – adeiladau gyda gwres dan y llawr, stordai, baddondy a'r 'praetorium' neu dŷ'r pennaeth milwrol.

Tyfodd anheddiad neu dref y tu allan i'r gaer. Gerllaw mae caer lai o'r enw Henwalia (hen waliau). Roedd honno ar gyfer y cychod oedd yn cludo cyflenwadau.


# Brwydro'n erbyn môr-ladron Gwyddelig

Roedd Segontium yn ddefnyddiol iawn hefyd i amddiffyn y bobl leol rhag môr-ladron Gwyddelig ffyrnig o Iwerddon a oedd yn ceisio ymosod.

Roedd gan y milwyr yn Segontium arfau rhyfeddol yn erbyn y môr-ladron. Un o'r rhain oedd catapwlt anferth o'r enw 'Ballista' a oedd yn taflu taflegrau tân hyd at 2000 troedfedd o uchder!

Roedden nhw'n gallu addasu'r catapwlt hwn i saethu creigiau, talpiau o fetel neu unrhyw beth arall defnyddiol er mwyn dangos i'r môr-ladron, neu unrhyw elynion eraill, pwy oedd y meistri!

Wrth i rym y Rhufeiniaid wanhau, aeth yr ysbeilwyr Gwyddelig yn fwyfwy beiddgar. Roedden nhw'n dwyn anifeiliaid a dillad a hyd yn oed yn herwgipio pobl o'u cartrefi. Yn ôl y sôn, cael ei herwgipio o Gymru gan fôr-ladron Gwyddelig a'i gludo i Iwerddon fel caethwas wnaeth Sant Padrig, nawddsant Iwerddon! Oedd wir, roedd y môr-ladron Gwyddelig yn giwed dychrynllyd iawn.



Darlun artist o 'Ballista' Rhufeinig

## Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.

Y DYNIAETHAU
HUMANITIES

# Ymchwiliwch!

Dysgwch ragor am filwyr Rhufeinig Segontium ar wefan Cadw. Pa arteffactau neu wrthrychau Rhufeinig a ddarganfuwyd yno? Beth maen nhw ei ddatgelu am fywyd Rhufeinig y cyfnod?

# Un bawd i fyny, un bawd i lawr?

## Amffitheatrau Cymru


Y tu allan i furiau Caerllion fe adeiladodd y Rhufeiniaid amffitheatr garreg. Gallai pobl fynd yno i wylio'r gladiatoriaid yn brwydro a gweld anifeiliaid gwyllt ffyrnig – llewod o bosibl hyd yn oed!

Roedd amffitheatr yn lle pwysig i'r Rhufeiniaid, gyda'i diwylliant ei hun, yn debyg iawn i sinema amlsgrin heddiw.



Meinciau pren oedd yno gyda lle i hyd at 6,000 o bobl eistedd. Roedden nhw'n dod yn llu i wylio'r gladiatoriaid yn ymladd ac i weld anifeiliaid gwyllt egsotig hefyd. Byddai gladiatoriaid, gan gynnwys gladiatoriaid benywaidd, yn enwogion – fel pêl-droedwyr ein hoes ni. Dychmygwch y tyrfaoedd yn rhuo a bloeddio am waed!

Pan oedd yr arweinwyr Rhufeinig yn troi bawd am i fyny, byddai'r gladiator yn cael ei ladd gan y gwrthwynebydd! Dyma sut y gallai'r amffitheatr fod wedi edrych:



Llun gan Dale Evans
© Cadw



Amffitheatr Caerllion
© Cadw

A dyma sut mae'n edrych heddiw.

Oeddech chi'n gwybod bod olion amffitheatr anhygoel yng Nghaerfyrddin, gorllewin Cymru hefyd? Mae mewn lle annisgwyl iawn ger stryd hynod gyffredin. Moridunum oedd enw Rhufeinig Caerfyrddin bryd hynny.

## Ymchwiliwch!

Pwy oedd y gladiatoriaid a sut oedden nhw'n ymladd? Beth ddigwyddodd yn yr amffitheatrau yng Nghaerllion a Chaerfyrddin? Chwiliwch am wybodaeth.



Olion amffitheatr Caerfyrddin

## Gweithgaredd gwych!

Mewn grŵp, gwnewch ffilm fer yn disgrifio brwydr gladiatoriaid Caerllion. Ewch i'r wefan neu defnyddiwch luniau ar-lein. Edrychwch ar ganllaw 'Ffilmio Hanes' Cadw er mwyn dysgu sut i wneud ffilm.

EXPRESSIVE ARTS
Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

**Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig**

Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.

# Filas Rhufeinig y bobl gyfoethog

Doedd bywyd i gyfoethogion Rhufeinig Prydain erioed wedi bod yn well. Adeiladodd y Rhufeiniaid cyfoethog dai crand mewn trefi a filas mewn arddull Rufeinig – tai moethus iawn gyda lloriau mosaig a gerddi ffurfiol. Yn aml, roedd fila'n ganolbwynt i fferm Rufeinig a elwid yn 'villa rustica'.





Fila a gardd Rufeinig
© Amgueddfa Genedlaethol Cymru


Roedd ‘hypocaust’ (gwres o dan y llawr) yn y filas hyd yn oed. Cofiwch fod Prydain yn oer iawn o’i chymharu â Rhufain – yn enwedig i bobl oedd yn gwisgo sandalau!

Gallwch weld olion fila Rufeinig oedd â llawr mosaig hardd y Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg.



Enghraifft o lawr mosaig Rhufeinig o’r 2il ganrif a ddarganfuwyd ym Mhrydain

Yn ei hanterth, efallai bod fila Llanilltud Fawr wedi edrych yn debyg i hyn:



Roedd filas yn Nhrelái ger Caerdydd hefyd ac o leiaf dair yng Nghaer-went.

## Ymchwiliwch!

Chwiliwch am ragor o wybodaeth am filas Rhufeinig Cymru. Beth allwn ni ei ddysgu am y ffordd Rufeinig o fyw o'r safleoedd hyn?

# Sut oedd y Brythoniaid yn ymateb i’r ffordd newydd Rufeinig o fyw?

Yn ystod y 300 mlynedd pan oedd Cymru’n rhan o’r Ymerodraeth Rufeinig, fe wnaeth rhai o’r Brythoniaid brodorol dderbyn y ffordd Rufeinig o fyw.

Mae un dref Rufeinig yng Nghymru sy’n gyfrinach, sef Caer-went neu Venta Silurum i’r Rhufeiniaid. Nid oes llawer o bobl yn gwybod am ei gwreiddiau Rhufeinig.

Sefydlwyd Caer-went tua OC 75-80 gan lwyth brodorol y Silwriaid. Fe ddysgon ni amdanyn nhw yn Uned 2. Mae eu hanes nhw’n ddiddorol iawn am eu bod yn enghraifft o lwyth a ddaeth yn ‘Rhufeinig’ drwy fabwysiadu ffordd Rufeinig o fyw ar ôl i Brydain gael ei gorchfygu.

Adfeilion Rhufeinig Caer-went
© Croeso Cymru



Roedd Caer-went yn dref brysur gyda baddondai cyhoeddus. Roedd hi hefyd yn dilyn y patrwm grid Rhufeinig trefnus, sy'n golygu bod y dref wedi'i gosod mewn llinellau syth, taclus.



Darlun o Gaer-went yn y cyfnod Rhufeinig © J Banbury

Gallwch weld y waliau Rhufeinig, olion y tai, y farchnad a'r deml Frythonig-Rufeinig yno o hyd. Cewch ragor o wybodaeth am sut i ymweld â Chaer-went ar wefan Cadw.

# Bywyd y werin bobl

Wrth gwrs, doedd pawb ddim yn byw mewn filas crand nac mewn trefi. Yng Nghymru doedd dim llawer o drefi Rhufeinig. Roedd Prydain yn gyffredinol yn dal i fod yn ynys amaethyddol ac yn ddibynnol ar ffermydd bychain. Wnaeth bywydau'r ffermwyr Celtaidd hyn ddim newid llawer.

Roedd y Celtaidd yn dal i fyw yn eu cytiau crwn, neu 'dai crwn'. Roedden nhw'n gweithio yn y caeau yn union yr un fath, felly wnaeth safon eu bywydau ddim newid fawr ddim.

Roedden nhw hefyd yn dal i siarad eu hieithoedd Celtaidd, sy'n egluro'n rhannol sut mae'r Gymraeg, sy'n iaith Geltaidd, yn dal i gael ei siarad hyd heddiw.

Tŷ Crwn Celtaidd nodweddiadol © Atebol








# Din Lligwy

Ar Ynys Môn mae pentref Cymreig hynafol hynod o ddiddorol o'r enw Din Lligwy sy'n dweud llawer wrthym am fywyd y Celtiaid. Hyd heddiw, gallwn weld yn glir olion dau dŷ crwn a llawer o adeiladau petryal gyda wal gerrig fawr 5 troedfedd o uchder a 1.5m o drwch o'u cwmpas – er mwyn cadw eu hanifeiliaid i mewn yn hytrach na chadw'r Rhufeiniaid allan!

Gwyddom fod pobl y pentref hwn wedi mabwysiadu ffordd Rufeinig o fyw oherwydd yr hyn a ddarganfuwyd yno sy'n dyddio'n ôl i'r 3$^{edd}$ a'r 4$^{edd}$ ganrif.



## Ymchwiliwch!

Ewch i wefan Cadw a dysgwch fwy am Din Lligwy. Pa eitemau gafodd eu darganfod yno? Beth maen nhw'n ei ddweud wrthym am fywyd y pentrefwyr?

Y DYNIAETHAU
HUMANITIES


**Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig**

Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.

# Beth ddysgodd y Rhufeiniaid gan y Celtiaid?

Rydyn ni wedi gweld sut y dylanwadodd y Rhufeiniaid ar y Celtiaid ym Mhrydain – ond beth am y ffordd arall? Mewn gwirionedd, roedd llawer o bethau ynghylch y Celtiaid yr oedd y Rhufeiniaid yn hoff iawn ohonyn nhw.

Yn ein dyddiau ni mae'n rhyfedd meddwl bod Ewrop yr hen oesoedd yn fwrlwm o weithgareddau, gyda llwybrau masnach sefydledig iawn a'r Celtiaid a'r Rhufeiniaid yn gwerthu eu nwyddau i'w gilydd.




Map o lwybrau masnachu







Roedd y Rhufeiniaid yn eu tro yn masnachu gwin, ifori, gwydr amrwd, arian, bwyd a chrochenwaith cain gyda'r Celtiaid. Cyn i ddarnau arian gael eu defnyddio i dalu am bethau, byddent yn cyfnewid nwyddau a elwid yn 'ffeirio' (o'r un tarddiad â'r gair 'ffair'). Roedd y Celtiaid wrth gwrs yn awyddus i fanteisio gymaint ag y gallent ar y Rhufeiniaid!

Wrth fasnachu roedd y Rhufeiniaid a'r Celtiaid yn cyfnewid syniadau ac yn gallu copïo technoleg, arfau, celf ac arferion crefyddol oddi wrth ei gilydd.

# Cerbydau Rhyfel a Chleddyfau

Dysgodd y Rhufeiniaid lawer oddi wrth y Celtiaid am sut i wneud cerbydau rhyfel. Roedd y rhain yn ddefnyddiol iawn wrth frwydro.

Boudicca ar gerbyd rhyfel mewn brwydr



Roedd y Celtiaid yn feistri ar drin ceffylau mewn brwydrau hefyd a chafodd y Rhufeiniaid gynghorion defnyddiol ym Mhrydain gan Geltiaid a aeth i wasanaethu fel milwyr Rhufeinig yn nes ymlaen.

Roedd gofaint metel hynod ddawnus ymhlith y Celtiaid. Fe wnaethon nhw offer ac arfau o haearn a gemwaith aur hardd. Yn sicr, dylanwadodd hyn ar y Rhufeiniaid – wedi'r cyfan, roedden nhw wedi dod i Brydain oherwydd y cyfoeth o fetelau gwerthfawr sydd ar gael yma. Mabwysiadodd y Rhufeiniaid gleddyf marchfilwyr 'spatha' Celtaidd ar gyfer brwydro hyd yn oed.



Clogyn aur yr Wyddgrug sy'n dyddio o 1900-1600 CC a ddarganfuwyd ger yr Wyddgrug, Sir y Fflint.



Cleddyf Spatha – defnyddiwyd gan y Rhufeiniaid dan ddylanwad y Celtiaid



Coron Geltaidd Cerrigydrudion – enghraifft gynnar o gelfyddyd Geltaidd yng Nghymru © Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Wnaeth y dyluniadau Celtaidd ddim diflannu ar ôl y goncwest Rufeinig. Fe wnaethon nhw barhau i ddylanwadu ar gelfyddyd. Er enghraifft, roedd gan sosban efydd a drwsiwyd yn y 3$^{edd}$ ganrif OC ac a ddarganfuwyd yn Coygan, Sir Gaerfyrddin addurn Celtaidd arni, nid un nodweddiadol Rufeinig.



Pen llew Rhufeinig, addurn dodrefn o bosibl a ddarganfuwyd yng Nghaerllion © Casgliad y Werin Cymru

Yn debyg i gelfyddyd Geltaidd, roedd celfyddyd Rufeinig yn defnyddio llawer o bennau anifeiliaid!



Pen anifail Celtaidd, ceffyl neu darw efallai, a ddarganfuwyd yng Nghasnewydd © Casgliad y Werin Cymru

# Gweithgaredd gwych

Ydych chi'n cefnogi'r Celtiaid, neu'r Rhufeiniaid? Gyda'ch grŵp, crëwch batrwm Rhufeinig neu batrwm Celtaidd i gynrychioli eich 'llwyth' chi. Gallwch ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol neu wneud un â llaw. Yna rhannwch eich patrymau a disgrifiwch pa fath o lwyth ydy eich un chi!

*Y Celfyddydau Mynegiannol:*

1. Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.
2. Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

*Gwyddoniaeth a Thechnoleg:*


Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.

# Dewiswch eich Duwiau

Cyn i'r Rhufeiniaid gyrraedd, paganiaid oedd y Brythoniaid brodorol. Roedden nhw'n credu mewn llawer o wahanol dduwiau ac ysbrydion.

Roedd y Rhufeiniaid yn baganiaid hefyd ond doedden nhw ddim yn credu yn yr un duwiau â'r Brythoniaid, er bod tebygrwydd weithiau.

Yn yr hen grefyddau Celtaidd a Rhufeinig mae gan y duw Carnonos gyrn fel carw, er enghraifft. Mae'n ymddangos yn aml ar gychod hynafol ac mae rhai haneswyr yn credu mai duw anifeiliaid neu dduw natur oedd Cernunnos.



Y Duw Cernunnos ar bair Celtaidd sy'n dyddio o tua 1 CC

Roedd y dduwies Rufeinig Minerva yn debyg iawn i'r dduwies Geltaidd Sulis. Minvera oedd duwies rhyfel, doethineb a chrefftau'r Rhufeiniaid. Sulis oedd duwies iachâd. Mae cysegrfa i Sulis Minerva yng Nghaerfaddon yn dangos hyn. Mae'r ffaith mai Sulis a enwir gyntaf yn dangos mai hi oedd y dduwies hynaf.



Delwedd o'r dduwies Rufeinig Minerva



Pen Rhufeinig y Dduwies Minerva (Caerfaddon)

Dyma un o 88 o gemau wedi'u hysgythru cafodd eu darganfod yn y draeniau o dan neuadd oer y baddonai yng Nghaerllion yn 1979. Mae'r arbenigwyr yn meddwl bod y gem yn dangos delwedd o'r dduwies Minerva. Byddai wedi bod yn rhan o fodrwy bys yn wreiddiol.



# Cyflwyno offrwm

Ar y dechrau roedd y Rhufeiniaid yn gadael i'r Brythoniaid addoli eu duwiau eu hunain, cyn belled â'u bod yn parchu'r rhai Rhufeinig hefyd.




Allor Caer-went

Byddai'r Rhufeiniaid yn cyflwyno offrymau i'r duwiau. Er enghraifft, er mwyn cael cymorth mewn brwydr bydden nhw'n cyflwyno offrwm i Mars, y duw rhyfel. Fel arfer roedden nhw'n cyflwyno rhywbeth gwerthfawr fel gwin i gerflun o'r duw.

Mewn tŷ o fewn tref Rufeinig Caer-went, darganfuwyd allor i Mars Ocleus sy'n gymysgedd o dduwiau Rhufeinig a Brythonig. Mae'n debygol iawn mai milwr oedd y perchennog. Byddai wedi rhoi'r allor yn y tŷ er mwyn 'talu'n ôl' rhyw adduned a roddwyd gan y duw.



Efallai ei fod wedi gwneud adduned i lwyddo mewn brwydr neu wella ar ôl salwch.

Yng Nghaerllion daethpwyd o hyd i allor ger pencadlys y gaer hefyd. Roedd rhai i'w cael mewn temlau yn aml hefyd. Llosgid arogldarth arnyn nhw. Y gred oedd bod y mwg yn cario'r neges i'r nefoedd – yn yr achos hwn at y duw Jupiter, brenin Rhufeinig yr holl dduwiau – duw'r awyr a tharanau. Mae yna dduw Celtaidd o'r enw 'Taranis' (fel y 'taran' Cymraeg) sy'n debyg iawn i Jupiter hefyd.






Atgynhyrchiad o allor Caerllion

# Cristnogaeth yn cyrraedd

Cyrhaeddodd Cristnogaeth i Brydain yn ystod yr ail ganrif. Ar y dechrau dim ond ychydig o bobl ddaeth yn Gristnogion. Pan ddechreuodd Cristnogaeth ddod yn boblogaidd, fe wnaeth y Rhufeiniaid ei wahardd a chosbi pobl yn llym. Mae'n debygol bod y merthyron Cristnogol cyntaf yng Nghymru, Julius ac Aaron, wedi'u lladd yng Nghaerllion tua 304 OC.

Ond erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif, roedd mwy a mwy o bobl yn dilyn Cristnogaeth, gan gynnwys y Rhufeiniaid. Erbyn tua 391, Cristnogaeth oedd y grefydd Rufeinig swyddogol ond roedd credoau paganaidd yn dal yn boblogaidd ym Mhrydain.

# Merched yn arwain


Roedd y Celtiaid yn fwy datblygedig na'r Rhufeiniaid mewn rhai ffyrdd. Yn Rhufain, y dynion oedd y penaethiaid; doedd menywod ddim yn cael bod yn arweinwyr. Ond rydym yn gwybod bod gan y Celtiaid arweinwyr fel Boudicca (Uned 2). Roedd menywod a dynion yn gallu rheoli llwythau Celtaidd os oedden nhw'n ddigon da i wneud hynny.

Yn wir, ym mhob haen o'r gymdeithas Geltaidd mae'n debyg bod gan fenywod fwy o ryddid na menywod Rhufain o ran busnes, priodi, bod yn berchen ar dir ac yn y cartref. Yr unig eithriadau oedd yr Ymerodresau Rhufeinig, oedd yn briod â'r Ymerawdwyr. Roedden nhw'n bwerus iawn.



# Gweithgaredd gwych!

Rwyt ti'n Gelt neu Rufeinwr. Gwna ffilm vlog ohonot ti dy hun yn disgrifio diwrnod arferol yn dy fywyd, gan ddefnyddio ap sgrin werdd. Galli di sôn am dy fam neu dy chwaer yn rheoli'r cartref, neu beth gest ti i'w fwyta'r diwrnod hwnnw. Rhanna dy farn am dy gymdogion yn y grŵp arall!



## Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

IEITHOEDD, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU

LANGUAGES, LITERACY & COMMUNICATION

Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.





# Rhufeiniaid a Cheltiaid yn cymysgu

Rydyn ni'n gwybod bod y Celtiaid wedi dechrau defnyddio geiriau Lladin ac o fewn ychydig genedlaethau roedd ffyrdd Celtaidd a Rhufeinig o fyw wedi eu cymysgu. Priododd y Celtiaid a'r Rhufeiniaid â'i gilydd, ymddeolodd milwyr Rhufeinig o'r fyddin a dod yn ffermwyr a siopwyr. Ymunodd meibion ac wyrion y rhai a fu'n ymladd yn erbyn y Rhufeiniaid â'r fyddin Rufeinig hyd yn oed.

## Gweithgaredd gwych

Llwyth Celtaidd sy'n byw yng Nghymru yw eich dosbarth. Rydych chi wedi clywed sïon y bydd Lleng Rufeinig yn teithio trwy eich pentref yn fuan. Rydych chi eisiau dangos i'r Rhufeiniaid eich bod yn bobl falch, artistig a diwylliedig, nid yn bobl wyllt, dwp a chyntefig.

Paratowch gyflwyniad neu hysbyseb sy'n dangos i'r Rhufeiniaid pa mor wych ydy eich llwyth chi, er mwyn iddyn nhw eich trin yn dda a chydweithio â chi. Gallech chi ddangos eich bwydydd blasus, eich tecstilau gwych neu eu herio i rasio yn eich erbyn yn y cerbydau rhyfel efallai?

Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL
EXPRESSIVE ARTS

**Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig**

Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

# Darganfod mwy!

Dyma restr o fideos y gallech chi eu gwylio er mwyn dysgu mwy am y Rhufeiniaid a'r Celtiaid yng Nghymru. Nodwch nad yw Cadw yn gyfrifol am gynnwys gwefannau allanol.

- Mae'r animeiddiad hwn gyda delweddau sydd wedi'u cynhyrchu â chyfrifiadur (CGI) gan Brifysgol Caerdydd yn dangos sut y daeth archeolegwyr o'r Ysgol Hanes o hyd i weddillion porthladd yng Nghaerllion. Mae'n ddarganfyddiad prin iawn o gyfnod Rhufeinig Prydain.

- Edrychwch ar fideos ac adnoddau sy'n edrych ar fywyd beunyddiol y Celtiaid yng Nghymru ar wefan Hwb.

- Mae adnoddau a fideos Cymraeg ar wefan BBC Bitesize am fywydau Celtiaid yr Oes Haearn.

- Darllenwch yr e-lyfr hwn gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar wefan Hwb sy'n disgrifio rhai o'r gwleddoedd rhyfedd a rhyfeddol o gyfnod y Rhufeiniaid.

- Dysgwch ragor am y Rhufeiniaid ym Mhowys drwy wylio'r fideos hyn ar wefan Hwb.